# Ysgol Deintyddiaeth –
# Amrywiad i'r polisi derbyniadau ar gyfer mynediad 2025

Mae'r polisi hwn yn manylu ar ofynion ychwanegol y cyrsiau canlynol a gynigir gan yr Ysgol Deintyddiaeth:

- Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS) (A200)
- BSc Therapi Deintyddol a Hylendid Deintyddol (B752)
- Diploma mewn Hylendid Deintyddol (DipHE) (B750)

**Sylwer:** dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisïau Derbyn Prifysgol Caerdydd a'r gofynion mynediad cyhoeddedig.

## Cynnwys


1. Gwiriadau cymhwysedd cyn ymgeisio .......... 2

2. Gofynion mynediad .......... 2

3. Dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais UCAS .......... 3

4. Y broses ddethol .......... 4

5. Gordanysgrifio .......... 5

Atodiad 1 - Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (A200) .......... 6

**Atodiad 2 - BSc Therapi a Hylendid Deintyddol (B752)** .......... 8

Atodiad 3 - Hylendid Deintyddol DipHE (B750) .......... 11

# 1. Gwiriadau cymhwysedd cyn ymgeisio

1.1 I fod yn gymwys i wneud cais am y rhaglenni hyn, mae'n rhaid i chi:

a) fod yn 18 oed erbyn 31 Rhagfyr ym mlwyddyn 1 (gweler y polisi oedran mynediad am ragor o wybodaeth),

b) a bodloni'r rheoliadau a chymhwysedd Addasrwydd i Ymarfer i ddilyn gofynion rhaglenni rheoledig (gweler y polisiAddasrwydd i Ymarfer a chymhwysedd i ddilyn rhaglenni rheoledig am ragor o wybodaeth),

c) a bodloni'r gofynion mynediad lleiaf ar Lefel 2 (TGAU fel arfer) a Lefel 3 (Lefel A fel arfer), gan gynnwys gofynion gradd a phwnc.

# 2. Gofynion mynediad

2.1 Mae'r gofynion mynediad nodweddiadol ar gyfer ymgeiswyr TGAU, Lefel A, BTEC, Bagloriaeth Ryngwladol (IB), a Lefel T yn cael eu cyhoeddi ar Coursefinder ac UCAS (gan gynnwys gofynion gradd a phwnc, ac a dderbynnir y cymwysterau hyn ai peidio).

2.2 Rhaid i bob ymgeisydd roi tystiolaeth o allu academaidd blaenorol mewn arholiadau a safonir yn allanol, a ddilysir yn gyhoeddus, e.e TGAU, IGCSE, neu gymwysterau cyfwerth. Ar gyfer ymgeiswyr sydd â chymwysterau'r DU, dim ond y rhai a ddiffinnir yn y Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig sy'n dderbyniol.

**2.3 Gofynion mynediad ansafonol:** Dylai ymgeiswyr nad ydyn nhw'n bodloni'r gofynion mynediad safonol gyfeirio at yr atodiadau am arweiniad pellach.

**2.3 Ailsefyll:**

- Ar gyfer y rhaglen BDS (A200), nid yw ymgeiswyr ailsefyll Lefel A yn cael eu hystyried. Bydd cyfle i ailsefyll yn cael eu hystyried ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais ar sail graddau a ragwelir, sy'n cael Cynnig Amodol ar ôl cyfweliad ac yn derbyn y cynnig yn ddewis Cadarn. Caiff y cynnig i ymgeiswyr ei anrhydeddu am flwyddyn yn unig, ar yr amod bod y gofynion mynediad lleiaf yn cael eu cyflawni wrth ailsefyll.
- Ystyrir bod ailsefyll yn dderbyniol ar gyfer mynediad ar gyfer B750 a B752 yn unol â pholisi ailsefyll y Brifysgol.
- Ystyrir ailsefyll TGAU ar gyfer mynediad ar gyfer A200, B750, a B752 ond rhaid cyflawni'r radd ailsefyll erbyn y dyddiad cau perthnasol i wneud cais.

**2.4 UCAT (A200 yn unig)** Mae'n ofynnol i ymgeiswyr i A200 sefyll Prawf Tueddfryd Clinigol y Brifysgol (UCAT) yn ystod mis Gorffennaf i Hydref y flwyddyn ymgeisio. Ni dderbynnir canlyniadau profion a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gellir defnyddio sgôr y prawf hwn i lunio rhestr fer o ymgeiswyr i gyfweld â nhw neu wneud cynnig iddyn nhw. Nid oes isafswm sgôr ac mae'r terfyn (os defnyddir yr UCAT) yn amrywio ym mhob cylchred.

2.4.1 Rhaid i unrhyw amgylchiadau esgusodol sy'n ymwneud â'r UCAT gael eu cyflwyno i UCAT a dilyn eu polisi a'u gweithdrefnau

**2.5 Trosglwyddiadau:** Trosglwyddiadau (a elwir hefyd yn RPLNi dderbynnir A200, B750, a B752.

**2.6 Myfyrwyr Israddedig Presennol:** Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais cyn cwblhau gradd anrhydedd yn derfynol fod yn eu blwyddyn olaf. Bydd unrhyw gynnig yn seiliedig ar gyflawni 2:1 neu

uwch (A200) neu 2:2 (B750 a B752) yn ogystal â chyflawni'r gofynion mynediad gofynnol ar gyfer graddedigionGall ymgeiswyr sydd wedi dechrau gradd, ond sydd wedi dewis peidio â'i chwblhau, wneud cais ond mae'n rhaid eu bod wedi:

- tynnu'n ôl o'u cwrs a
- rhoi llythyr gan eu prifysgol i'r Tîm Derbyn Deintyddol (dentalcentralenquiries@caerdydd.ac.uk) yn cadarnhau bod y tynnu'n ôl yn wirfoddol ac nid o ganlyniad i fethu â symud ymlaen oherwydd perfformiad academaidd gwael neu bryderon cywir.
- Cyn belled â bod y ddau amod hyn yn cael eu bodloni, bydd y cais yn cael ei ystyried o fewn carfan yr ymgeiswyr ar gyfer blwyddyn y cais a bydd yn amodol ar y broses ddethol lawn yn unol â'r rhai sy'n gwneud cais gyda Safon Uwch a gyflawnwyd.

## 3. Dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais UCAS

3.1 Ar gyfer rhaglen BDS (A200), rhaid i chi gyflwyno cais wedi'i gwblhau'n llawn (gan gynnwys yr holl gymwysterau academaidd ac iaith Saesneg a gyflawnwyd ac sydd arfaeth, cyfeirnod, a datganiad personol) drwy UCAS erbyn 15 Hydref 2024 18:00 o'r gloch (amser y DU).

> 3.1.1 Ni fydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau penodedig UCAS yn cael eu hystyried a byddan nhw'n cael eu gwrthod fel rhai 'hwyr'.
>
> 3.1.2 Lle na allwn ni roi sgôr academaidd i'ch cais oherwydd bod gwybodaeth ar goll, gan gynnwys lle nad yw datganiad personol neu eirda wedi'i ddarparu, caiff eich cais ei wrthod am ei fod yn anghyflawn.

3.2 Ar gyfer rhaglenni BSc Therapi Deintyddol a Hylendid Deintyddol (B752) a DiPhe Deintyddol Hylendid (B750), rhaid i chi gyflwyno cais wedi'i gwblhau'n llawn (gan gynnwys cymwysterau academaidd a Saesneg, cyfeiriadau a datganiad personol) trwy UCAS erbyn y dyddiad cau ystyriaeth gyfartal (29 Ionawr 2025 18:00 (amser y DU)) i sicrhau y cewch chi eich ystyried.

> 3.2.1 Caiff ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y Dyddiad cau Ystyried Cyfartal (ECD) yn cael eu hystyried yn amodol ar fod lleoedd cyfweld ar gael. Os nad oes lleoedd ar gael, ni fydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl yr ECD yn cael eu hystyried a byddan nhw'n cael eu gwrthod fel rhai hwyr.
>
> 3.2.2 Pan fydd amser yn caniatáu, byddwn ni'n cysylltu ag ymgeiswyr i ofyn am wybodaeth berthnasol ychwanegol i'n galluogi i wneud penderfyniad. Gan fod amser yn bwysig oherwydd natur gystadleuol iawn y rhaglenni, bydd ymgeiswyr yn cael dyddiad cau llym ac mae'n rhaid ymateb erbyn y dyddiad hwnnw. Os gofynnir i chi am fwy o wybodaeth ac nad ydych chi'n darparu hyn erbyn y dyddiad cau a nodwyd, bydd eich cais yn cael ei wrthod fel un anghyflawn. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau hyn, gallwch chi wneud cais eto am y rhaglen drwy broses UCAS Extra neu Glirio os yw'r ceisiadau'n parhau ar agor.

3.3 Os oes gennych chi gymwysterau ansafonol neu gymwysterau Lefel 3+ sydd eisoes wedi'u cyflawni, rydyn ni'n argymell eich bod yn e-bostio tystysgrifau a thrawsgrifiadau aton ni ar yr un pryd â chyflwyno eich cais UCAS. Gallwch chi lanlwytho copïau o'ch cymwysterau i'n porth ceisiadau (sims.cf.ac.uk) ar ôl derbyn eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair Prifysgol Caerdydd, neu gellir anfon copïau PDF neu JPEG yn uniongyrchol at admissions@caerdydd.ac.uk o'r cyfeiriad e-bost a roddir ar

y cais UCAS gyda 'Cais Deintyddiaeth -dogfennau ategol' yn y llinell bwnc ac enw llawn, enw'r rhaglen, ac ID UCAS yng nghorff yr e-bost.

# 4. Y broses ddethol

4.1 Os ydych chi'n bodloni'r gofynion mynediad lleiaf ar Lefel 2 (TGAU fel arfer) a Lefel 3 (Lefel A fel arfer), wedi cyflwyno datganiad personol a geirda derbyniol, ac wedi cwblhau'r UCAT o fewn yr amserlen ofynnol, bydd eich cais yn cael sgôr academaidd yn seiliedig ar y cymwysterau Lefel 2 a 3 a enillwyd.

4.1.1 Caiff ceisiadau eu sgorio ar sail cymwysterau a enillwyd yn unig.

4.2.2 Mae pynciau gorfodol yn cael eu sgorio yn gyntaf, yna caiff sgôr ei roi i weddill y pynciau â'r graddau uchaf.

4.2.3 Os methwch chi â chyflwyno dau sgôr ar gyfer gwyddoniaeth ddwbl erbyn y dyddiad cau, byddwch yn cael gradd dybiedig un radd yn is na'r radd a roddwyd. Er enghraifft, os dywedwch chi eich bod wedi ennill gradd A, byddwch chi'n cael eich sgorio gan dybio eich bod wedi ennill graddau AB.

4.2.4 Gellir defnyddio UCAT yn y broses ddethol lle mae nifer yr ymgeiswyr â'r un sgôr yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn cyfweliad.

4.3 Rhoddir ystyriaeth ychwanegol yn y broses sgorio ar gyfer:

- 4.3.1 ymgeiswyr sy'n cael eu dosbarthu'n ymgeiswyr cyd-destunol. Gweler y polisi derbyn cyd-destunol i gael rhagor o wybodaeth am bwy sy'n cael ei ystyried yn gyd-destunol a sut mae hyn yn cael ei gymhwyso i bob rhaglen.
- Ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru.
- Bydd ymgeiswyr sydd wedi cwblhau neu yn cymryd rhan yn un o'r mentrau ehangu cyfranogiad canlynol ym mlwyddyn y cais, ac yn bodloni'r gofynion mynediad lleiaf, yn cael cyfweliad heb os:
    - Rhaglen Camu Ymlaen i'r Brifysgol Prifysgol Caerdydd
    - Ysgol Haf Deintyddol Ymddiriedolaeth Sutton Prifysgol Caerdydd
    - Deintyddion Yfory
    - Cynllun Deintyddiaeth Gogledd Cymru
    - 4.3.4 ymgeiswyr sy'n rhan o'n rhaglenni Chwaraeon Perfformiad Uchel. Gweler y polisi llawn i gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd a sut mae hyn yn cael ei gymhwyso i bob rhaglen.
    - ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd wedi cofrestru ar y Blwyddyn Sylfaen Ryngwladol yn y Gwyddorau Iechyd, Meddygol a Bywyd yng Nghanolfan Astudio Ryngwladol Prifysgol Caerdydd
    - **B750 neu B752 yn unig:** ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd wedi cofrestru ar y Llwybr Prifysgol Caerdydd i **Error! Hyperlink reference not valid.** a Therapi Deintyddol
    - **B750 neu B752 yn unig:** ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru ac sydd naill ai wedi cwblhau neu sy'n aros am Ddiploma Mynediad at Addysg Uwch Lefel 3/4.

4.3.1 Os ydych chi'n gymwys mewn mwy nag un categori a restrir uchod, dim ond mewn un o'r categorïau hyn y cewch chi ystyriaeth ychwanegol.

## 5. Gordanysgrifio

Mae gan yr Ysgol Deintyddiaeth bolisi gordanysgrifio ar waith i reoli niferoedd ar bob cwrs, gan fod y rhain yn cael eu capio gan Lywodraeth Cymru. Gweler y polisi gordanysgrifio i gael rhagor o wybodaeth ynghylch i bwy y gall hwn fod yn berthnasol iddo a sut a phryd y gellir ei ddefnyddio.

## Atodiad 1 - Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (A200)

| | |
|---|---|
| **Mynediad at Addysg Uwch** | Ni dderbynnir cyrsiau mynediad ar gyfer y rhaglen hon. |
| **Ymgeiswyr graddedig gyda MSc Prifysgol Caerdydd mewn Bioleg y Geg** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 sy'n cyfateb i BBB Lefel A gan gynnwys Bioleg a Cemeg.<br><br>Caniateir ail-sefyll modiwlau ond rhaid dyfarnu'r MSc drwy ryddhau'r canlyniadau Lefel A yn y flwyddyn ymgeisio.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>Gradd MSc mewn Bioleg y Geg gyda pas cyffredinol ym mhob modiwl |
| **Ymgeiswyr graddedig gyda gradd yn seiliedig ar wyddoniaeth (gyda Bioleg a/neu Cemeg)** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 sy'n cyfateb i BBB Lefel A gan gynnwys Bioleg a Cemeg.<br><br>Caniateir ail-sefyll modiwlau ond rhaid dyfarnu'r radd drwy ryddhau'r canlyniadau Lefel A yn y flwyddyn ymgeisio.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>2:1 Gradd anrhydedd mewn un o'r pynciau a restrir isod<br>• Biocemeg<br>• Gwyddorau Biolegol<br>• Gwyddorau Biofeddygol<br>• Cemeg<br>• Therapi Deintyddol<br>• Ffarmacoleg Feddygol<br>• Cemeg Feddyginiaethol<br>• Meddygaeth<br>• Bydwreigiaeth<br>• Niwrowyddoniaeth<br>• Nyrsio<br>• Optometreg<br>• Gwyddorau Iechyd y Geg<br>• Fferylliaeth<br>• Ffisiotherapi<br>• Seicoleg<br>• Radiotherapi ac Oncoleg<br><br>Gellir derbyn graddau eraill ar gyfer y llwybr hwn ond byddant yn destun adolygiad modiwlau. Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno adolygiad modiwl e-bostio eu trawsgrifiad cyn neu ar adeg y cais. |
| **Ymgeiswyr graddedig gyda gradd Anrhydedd (heb Bioleg a/neu Cemeg)** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 sy'n cyfateb i Lefel A  AAB gan gynnwys AA mewn Bioleg a Cemeg. |

| | |
|---|---|
| | Caniateir ail-sefyll modiwlau ond rhaid dyfarnu'r radd drwy ryddhau'r canlyniadau Lefel A yn y flwyddyn ymgeisio.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>2:1 Gradd anrhydedd mewn unrhyw bwnc |
| **Cymwysterau rhyngwladol** | Dylai ymgeiswyr rhyngwladol gyfeirio at y tablau ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau cyfatebol.<br>[https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies](https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies)<br><br>Mae'n rhaid bodloni gofynion pwnc a chyfwerthedd graddau ar Lefel 2 a 3.<br><br>Bydd ymgeiswyr nad ydyn nhw'n gallu sefyll cymwysterau Lefel 2 oherwydd eu system addysgol leol yn cael eu hystyried fesul achos. |
| **Tystysgrif Ymadael Iwerddon** | Yn lle'r gofynion nodweddiadol Lefel 2 bydd angen i chi fod wedi ennill graddau H4 yn Saesneg a H3 mewn chwe phwnc arall gan gynnwys Bioleg a Cemeg. Cynnig nodweddiadol: H1 a H1 mewn Bioleg a Cemeg a H2 mewn pedwar pwnc arall |
| **Cymwysterau eraill y DU** | Gall ymgeiswyr sy'n cynnig cymwysterau eraill nad ydyn nhw wedi'u rhestru yma, neu gyfuniad o gymwysterau, gael eu hystyried fesul achos. Mae'n rhaid i'r gofynion o ran lefel, gradd a phynciau cyfatebol gael eu bodloni.<br><br>Os ydych chi'n bwriadu gwneud cais gydag unrhyw gymwysterau nad ydyn nhw wedi'u rhestru ar ein gwefan neu yn y polisi hwn, rydyn ni'n argymell eich bod yn trafod eich cymhwysedd gyda'r Ysgol Deintyddiaeth ymlaen llaw.<br><br>Dylai ymgeiswyr gyfeirio at hefyd y wybodaeth ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth:<br>[https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance](https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance) |
| **Cymwysterau 'National 5', 'Higher' ac 'Advanced Higher' yr Alban** | 5s Cenedlaethol: i gynnwys Bioleg, Cemeg, Saesneg a Mathemateg, o leiaf B.<br><br>SQA Highers: AAAAB erbyn diwedd S5 a byddai cynigion wedyn yn amodol ar BB ar lefel 'Advanced Higher' yn S6 (mewn Cemeg a Bioleg).<br><br>Gofynion Pwnc:<br>• Highers: Cemeg a Bioleg, a naill ai Mathemateg / Cymhwyso Mathemateg neu Ffiseg. I rai ymgeiswyr nid yw'r cyfuniad hwn o bynciau yn bosibl yn S5. Gall myfyrwyr sy'n bodloni'r gofynion gradd yn S5 ond sy'n colli un neu fwy o wyddorau gymryd y pwnc/pynciau coll yn S6. Gall Bioleg ddynol gymryd lle Bioleg.<br>• Rhaid sefyll Highers ar un tro<br>• Ni fydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan unrhyw un sydd ond yn cynnig pump o Highers S5 yr Alban heb astudiaethau ychwanegol ar S6 |

## Atodiad 2- BSc Therapi a Hylendid Deintyddol (B752)

| | |
|---|---|
| **Mynediad at Addysg Uwch mewn pwnc gwyddoniaeth neu iechyd (gyda Bioleg neu Bioleg Ddynol)** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Mae'n rhaid i gyrsiau mynediad gynnwys digon o gredydau gyda chynnwys perthnasol. Fe'ch cynghorir felly i e-bostio dentalcentralenquiries@caerdydd.ac.uk cyn gwneud cais fel y gellir gwirio cynnwys y cymhwyster.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>60 credyd yn gyffredinol gyda 45 credyd ar Lefel 3 gan gynnwys 30 Rhagoriaeth a 15 Teilyngdod |
| **Cymhwyster nyrsio deintyddol** | Bydd cymhwyster cydnabyddedig yn cael ei dderbyn yn lle un Lefel A (heb gynnwys Bioleg). |
| **Ymgeiswyr graddedig gyda MSc Prifysgol Caerdydd mewn Bioleg y Geg** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 sy'n cyfateb i BCC Lefel A gan gynnwys Bioleg.<br><br>Caniateir ail-sefyll modiwlau ond rhaid dyfarnu'r MSc drwy ryddhau'r canlyniadau Lefel A yn y flwyddyn ymgeisio.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>Gradd MSc mewn Bioleg y Geg gyda pas cyffredinol ym mhob modiwl |
| **Ymgeiswyr graddedig gyda gradd Bioleg Anrhydedd** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 sy'n cyfateb i BCC Lefel A gan gynnwys Bioleg a Cemeg.<br><br>Caniateir ail-sefyll modiwlau ond rhaid dyfarnu'r radd drwy ryddhau'r canlyniadau Lefel A yn y flwyddyn ymgeisio.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>2:2 Gradd anrhydedd mewn un o'r pynciau a restrir isod<br>• Biocemeg<br>• Gwyddorau Biolegol<br>• Gwyddorau Biofeddygol<br>• Cemeg<br>• Therapi Deintyddol<br>• Ffarmacoleg Feddygol<br>• Cemeg Feddyginiaethol<br>• Meddygaeth<br>• Bydwreigiaeth<br>• Niwrowyddoniaeth<br>• Nyrsio<br>• Optometreg<br>• Gwyddorau Iechyd y Geg<br>• Fferylliaeth<br>• Ffisiotherapi<br>• Seicoleg<br>• Radiotherapi ac Oncoleg |

| | |
|---|---|
| | Gellir derbyn graddau eraill ar gyfer y llwybr hwn ond byddant yn destun adolygiad modiwlau. Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno adolygiad modiwl e-bostio eu trawsgrifiad cyn neu ar adeg y cais. |
| **Ymgeiswyr graddedig gyda gradd Anrhydedd mewn unrhyw bwnc** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 sy'n cyfateb i BCC Lefel A gan gynnwys B mewn Bioleg.<br><br>Caniateir ail-sefyll modiwlau ond rhaid dyfarnu'r radd drwy ryddhau'r canlyniadau Lefel A yn y flwyddyn ymgeisio.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>2:2 Gradd anrhydedd mewn unrhyw bwnc |
| **Cymwysterau rhyngwladol** | Os oes gennych chi gymwysterau rhyngwladol, dim ond os ydych chi wedi'ch pennu fel statws ffioedd 'Cartref' y gellir eich ystyried.<br><br>Dylai ymgeiswyr rhyngwladol gyfeirio at y tablau ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau cyfatebol.<br>https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies<br><br>Mae'n rhaid bodloni gofynion pwnc a chyfwerthedd graddau ar Lefel 2 a 3. |
| **Tystysgrif Ymadael Iwerddon** | Yn lle'r gofynion nodweddiadol Lefel 2 bydd angen i chi fod wedi cyflawni graddau H4 yn Saesneg a H4 mewn pedwar pwnc arall.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>H2 mewn Bioleg a H3 pum pwnc arall |
| **Cymwysterau eraill y DU** | Gall ymgeiswyr sy'n cynnig cymwysterau eraill nad ydyn nhw wedi'u rhestru yma, neu gyfuniad o gymwysterau, gael eu hystyried fesul achos. Mae'n rhaid i'r gofynion o ran lefel, gradd a phynciau cyfatebol gael eu bodloni.<br><br>Os ydych chi'n bwriadu gwneud cais gydag unrhyw gymwysterau nad ydyn nhw wedi'u rhestru ar ein gwefan neu yn y polisi hwn, rydyn ni'n argymell eich bod yn trafod eich cymhwysedd gyda'r Ysgol Deintyddiaeth ymlaen llaw.<br><br>Dylai ymgeiswyr gyfeirio at hefyd y wybodaeth ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth:<br>https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance |
| **Llwybr at Hylendid Deintyddol a Therapi Deintyddol (cyflwynir gan Brifysgol Caerdydd)** | **Cynnig nodweddiadol:**<br>Pasio gyda 60 credyd |
| **Cymwysterau 'Higher' ac 'Advanced' yr Alban** | 'National 5s': 5 pwnc sy'n ofynnol ar radd C gan gynnwys Saesneg.<br><br>SQA Highers: ABBB erbyn diwedd S5 a byddai cynigion wedyn yn amodol ar CC ar lefel Advanced Higher yn S6 (gan gynnwys Bioleg). |

| | |
|---|---|
| | Gofynion Pwnc:<br>• Highers: Bioleg neu Bioleg Ddynol.<br>• Rhaid sefyll Highers ar un tro<br>• Ni fydd ceisiadau yn cael eu hystyried gan unrhyw un sydd ond yn cynnig pedwar 'Highers' S5 yr Alban heb astudiaethau ychwanegol ar S6. |

## Atodiad 3 - Hylendid Deintyddol DipHE (B750)

| | |
|---|---|
| **Mynediad at Addysg Uwch mewn pwnc gwyddoniaeth neu iechyd (gyda Bioleg neu Bioleg Ddynol)** | Mae’n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Mae’n rhaid i gyrsiau mynediad gynnwys digon o gredydau gyda chynnwys perthnasol. Fe'ch cynghorir felly i e-bostio dentalcentralenquiries@caerdydd.ac.uk cyn gwneud cais fel y gellir gwirio cynnwys y cymhwyster.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>60 credyd yn gyffredinol gyda 45 credyd ar Lefel 3 gan gynnwys 15 Rhagoriaeth a 30 Teilyngdod |
| **Cymhwyster nyrsio deintyddol** | Bydd cymhwyster cydnabyddedig yn cael ei dderbyn yn lle un Lefel A (heb gynnwys Bioleg). |
| **Ymgeiswyr graddedig gyda MSc Prifysgol Caerdydd mewn Bioleg y Geg** | Mae’n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 sy'n cyfateb i CC Lefel A.<br><br>Caniateir ail-sefyll modiwlau ond rhaid dyfarnu'r MSc drwy ryddhau'r canlyniadau Lefel A yn y flwyddyn ymgeisio.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>Gradd MSc mewn Bioleg y Geg gyda pas cyffredinol ym mhob modiwl |
| **Ymgeiswyr graddedig gyda gradd Bioleg Anrhydedd** | Mae’n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 sy'n cyfateb i CC Lefel A.<br><br>Caniateir ail-sefyll modiwlau ond rhaid dyfarnu'r radd drwy ryddhau'r canlyniadau Lefel A yn y flwyddyn ymgeisio.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>2:2 Gradd anrhydedd mewn un o'r pynciau a restrir isod<br>• Biocemeg<br>• Gwyddorau Biolegol<br>• Gwyddorau Biofeddygol<br>• Cemeg<br>• Therapi Deintyddol<br>• Ffarmacoleg Feddygol<br>• Cemeg Feddyginiaethol<br>• Meddygaeth<br>• Bydwreigiaeth<br>• Niwrowyddoniaeth<br>• Nyrsio<br>• Optometreg<br>• Gwyddorau Iechyd y Geg<br>• Fferylliaeth<br>• Ffisiotherapi<br>• Seicoleg<br>• Radiotherapi ac Oncoleg |

| | |
|---|---|
| | Gellir derbyn graddau eraill ar gyfer y llwybr hwn ond byddant yn destun adolygiad modiwlau.  Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno adolygiad modiwl e-bostio eu trawsgrifiad cyn neu ar adeg y cais. |
| **Ymgeiswyr graddedig gyda gradd Anrhydedd mewn unrhyw bwnc** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br><br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 sy'n cyfateb i CC Lefel A gan gynnwys gradd C mewn Bioleg.<br><br>Caniateir ail-sefyll modiwlau ond rhaid dyfarnu'r radd drwy ryddhau'r canlyniadau Lefel A yn y flwyddyn ymgeisio.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>2:2 Gradd anrhydedd mewn unrhyw bwnc |
| **Cymwysterau rhyngwladol** | Os oes gennych chi gymwysterau rhyngwladol, dim ond os ydych chi wedi'ch pennu fel statws ffioedd 'Cartref' y gellir eich ystyried.<br><br>Dylai ymgeiswyr rhyngwladol gyfeirio at y tablau ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau cyfatebol.<br>https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies<br><br>Mae'n rhaid bodloni gofynion pwnc a chyfwerthedd graddau ar Lefel 2 a 3. |
| **Tystysgrif Ymadael Iwerddon** | Yn lle'r gofynion nodweddiadol Lefel 2 bydd angen i chi fod wedi cyflawni graddau H4 yn Saesneg a H4 mewn pedwar pwnc arall.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>H3 mewn Bioleg a H3 mewn tri phwnc arall |
| **Cymwysterau eraill y DU** | Gall ymgeiswyr sy'n cynnig cymwysterau eraill nad ydyn nhw wedi'u rhestru yma, neu gyfuniad o gymwysterau, gael eu hystyried fesul achos. Mae'n rhaid i'r gofynion o ran lefel, gradd a phynciau cyfatebol gael eu bodloni.<br><br>Os ydych chi'n bwriadu gwneud cais gydag unrhyw gymwysterau nad ydyn nhw wedi'u rhestru ar ein gwefan neu yn y polisi hwn, rydyn ni'n argymell eich bod yn trafod eich cymhwysedd gyda'r Ysgol Deintyddiaeth ymlaen llaw.<br><br>Dylai ymgeiswyr gyfeirio at hefyd y wybodaeth ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth:<br>https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance |
| **Llwybr at Hylendid Deintyddol a Therapi Deintyddol (cyflwynir gan Brifysgol Caerdydd)** | **Cynnig nodweddiadol:**<br>60 credyd pasio yn gyffredinol |
| **Cymwysterau 'Higher' ac 'Advanced' yr Alban** | 'National 5s': 5 pwnc sy'n ofynnol ar radd C gan gynnwys Saesneg.<br><br>SQA Highers: CCC<br><br>Gofynion Pwnc: |

| | |
|---|---|
| | • Highers: Bioleg neu Bioleg Ddynol.<br>• Rhaid sefyll 'Highers' ar un tro. |